Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar ddarpariaeth dysgu yn y gwaith

## Associated Community Training (ACT) Ltd

Ocean Park House
Stryd Tyndall Ddwyreiniol
Caerdydd
CF24 5GT

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Associated Community Training (ACT) Ltd

Mae Associated Community Training Ltd (ACT) yn brif ddarparwr prentisiaethau yng Nghymru. Mae'r darparwr, sy'n is-gorff a berchnogir yn gyfan gwbl gan grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro, yn gweithredu o dan gontract Llywodraeth Cymru ar gyfer prentisiaethau hyd at werth £24.6m yn 2024-25.

Mae'r darparwr yn cyflwyno prentisiaethau i ryw 6400 o ddysgwyr ar lefelau prentisiaethau sylfaen, prentisiaeth a phrentisiaethau uwch ar draws ystod o feysydd dysgu, gan gynnwys:

- Iechyd a gofal cymdeithasol
- Gofal plant
- Gofal iechyd
- Arweinyddiaeth a rheolaeth
- Gweinyddu busnes
- Gwasanaeth cwsmeriaid
- Cyfrifyddiaeth
- Gwasanaethau ariannol
- Technoleg ddigidol a thechnoleg gwybodaeth
- Addysg a hyfforddiant
- Chwaraeon a ffitrwydd
- Gwallt a harddwch
- Adeiladu
- Peirianneg a gweithgynhyrchu
- Ynni a charbon
- Rheoli adnoddau cynaliadwy

Mae'r darparwr yn cyflwyno'i brentisiaethau ar draws Gymru gyfan. Cyflwynir tua 37% o'r ddarpariaeth gan ACT ac mae'r 63% sy'n weddill wedi'i wasgaru ar draws ei 12 partner cyflenwi:

- AGW (Grŵp Prentisiaeth Cymru)
- ALS Training
- Aspiration Training
- Coleg QS
- Hyfforddiant Ceredigion Training (HCT)
- Hen Felin Training
- Military Preparation College for Training (MPTC)
- Portal Training
- Progression Training

- Talk Training
- Urdd Gobaith Cymru
- XR Training

## Crynodeb

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn llawn cymhelliant ac yn angerddol am eu rolau, ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'u rhaglenni prentisiaeth. Maent yn gwerthfawrogi eu profiadau dysgu ac yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu eu medrau.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu medrau gweithle ymarferol yn llwyddiannus ac yn sefydlu cysylltiadau clir rhwng dysgu damcaniaethol a chymhwyso yn y byd go iawn. Mae llawer ohonynt yn magu hyder ac annibyniaeth trwy sesiynau ymarferol, gan gymhwyso'u medrau yn effeithiol yn y gweithle.

Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr presennol yn gwneud cynnydd cadarn, ac ychydig ohonynt yn rhagori ar y cynnydd disgwyliedig. Mae llawer o ddysgwyr yn disgrifio'r modd y mae adborth adeiladol gan aseswyr a thiwtoriaid yn gwella'u datblygiad, gan eu galluogi i ddod yn gyflogeion gwerthfawr a chynhyrchiol. Fodd bynnag, mae tua hanner y dysgwyr yn cwblhau eu fframweithiau yn hwyrach na'r disgwyl. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn rhagori'n sylweddol ar yr hyd disgwyliedig ar gyfer eu fframwaith.

Mae llawer o diwtoriaid ac aseswyr yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer eu dysgwyr, gan ddefnyddio cwestiynau treiddgar i ddatblygu medrau meddwl dyfnach, datrys problemau a hunanfyfyrio dysgwyr. Mae llawer o aseswyr a thiwtoriaid yn darparu adborth manwl ac adeiladol, gan sicrhau bod dysgwyr yn deall disgwyliadau tasgau a meysydd i'w gwella. Mewn llawer o achosion, mae aseswyr a thiwtoriaid yn defnyddio amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau difyr i gyfoethogi profiadau dysgu.

Mae aseswyr yn monitro ac olrhain cynnydd a lles dysgwyr yn effeithiol trwy gyfarfodydd adolygu rheolaidd. Mae llawer o diwtoriaid ac aseswyr yn darparu cymorth teilwredig, yn enwedig ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae cydlynydd ADY arbenigol yn sicrhau bod aseswyr a thiwtoriaid yn gallu manteisio ar hyfforddiant ac adnoddau gwerthfawr. Mae llawer o ddysgwyr ag ADY yn gwneud cynnydd da oherwydd yr addasiadau teilwredig hyn.

Mae uwch arweinwyr wedi datblygu diwylliant cryf o dryloywder a chydweithio ar draws eu partneriaid. Mae'r darparwr a'i bartneriaid yn cynnig ystod eang ac ymatebol o ddarpariaeth ar draws tua 50 o feysydd pwnc, gan sicrhau bod hyn yn cyd-fynd ag anghenion cyflogwyr. Mae prosesau hunanwerthuso a gwella ansawdd y darparwr wedi'u strwythuro'n dda, ond nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon craff ar wella deilliannau dysgwyr na chyfraddau cwblhau amserol lle mae tanberfformio'n digwydd.

Mae arweinwyr yn ymgysylltu'n effeithiol â chyrff lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyd-fynd ag anghenion y gweithlu. Mae gan gyflogwyr rôl allweddol mewn cefnogi dysgwyr, ac mae llawer ohonynt yn caniatáu amser ar gyfer

sesiynau dysgu wedi'u hamserlennu yn ystod oriau gweithio. Fodd bynnag, nid yw ychydig o gyflogwyr yn darparu digon o amser i ddysgwyr fynychu gweithgareddau dysgu i ffwrdd o'r gwaith.

## Argymhellion

A1 Gwella cyfraddau cyrhaeddiad prentisiaethau mewn meysydd pwnc sector sy'n tanberfformio a mireinio'r ffocws ar leihau nifer y rhai sy'n cwblhau'n hwyr

A2 Sicrhau bod cyflogwyr yn darparu'r cymorth angenrheidiol ar gyfer eu prentisiaid, gan gynnwys neilltuo amser i fynychu gweithgareddau i ffwrdd o'r gwaith a chael eu cynnwys yn weithredol mewn cynllunio ac adolygu cynnydd dysgwyr

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ar ei waith yn ymwneud â medrau holi aseswyr a thiwtoriaid, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Dysgu**

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn yn eu rhaglenni prentisiaeth, ac ychydig ohonynt yn gwneud cynnydd gwell na'r disgwyl tuag at eu cwblhau. Mae llawer o ddysgwyr yn ymwybodol o'r cynnydd maent yn ei wneud a pha dasgau mae angen iddynt eu cwblhau. Caiff llawer o ddysgwyr, yn enwedig ar lefelau uwch, eu cynnwys yn weithredol mewn trafod y tasgau y mae angen iddynt eu cwblhau gyda'u haseswyr, gan gymryd perchnogaeth o'u dysgu. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae dysgwyr yn dibynnu'n ormodol ar eu haseswyr i osod eu targedau a'u cadw ar y trywydd iawn â'u cynnydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn angerddol ac yn frwdfrydig am eu rolau ac yn llawn cymhelliant i ddysgu. Maent yn disgrifio sut mae eu medrau wedi datblygu o ganlyniad i adborth adeiladol gan eu haseswyr a'u tiwtoriaid, sy'n eu helpu i ddod yn aelodau gwerthfawr a chynhyrchiol o'u gweithleoedd. Mae llawer o ddysgwyr yn uchelgeisiol i symud ymlaen i raglenni lefel uwch ac yn ystyried eu prentisiaeth yn rhan werthfawr o'u datblygiad gyrfa. Yn yr achosion gorau, mae dysgwyr yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd i wneud gwaith ychwanegol i gwblhau eu rhaglenni'n gynnar. Mae ychydig o ddysgwyr sydd â medrau galwedigaethol datblygedig yn gwneud cynnydd yn gyflym, gan ymgymryd â mwy o gyfrifoldebau yn y gweithle. Er enghraifft, mae dysgwr gweinyddu busnes sy'n

symud ymlaen ynghynt na'r disgwyl wedi bod yn gweithio fel cynorthwyydd personol i brif weithredwr.

Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn ateb cwestiynau sy'n cael eu gofyn gan eu tiwtoriaid a'u haseswyr yn hyderus, yn aml trwy gysylltu eu hymatebion ag arferion gweithle. Maent yn arddangos gwybodaeth bynciol gref ac yn cymhwyso'u dysgu'n effeithiol i dasgau mewn sesiynau i ffwrdd o'r gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos medrau cyfathrebu cryf ar lafar ac yn defnyddio terminoleg dechnegol briodol sy'n berthnasol i'w sector. Er enghraifft, mae dysgwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn trafod polisïau diogelu a'r gweithle yn hyderus, gan ddangos dealltwriaeth glir o ddisgwyliadau sy'n benodol i ddiwydiant. Yn yr achosion gorau, mae dysgwyr yn rhoi ymatebion craff a myfyriol i destunau cymhleth. Mae dysgwr sy'n dilyn prentisiaeth uwch mewn gofal plant yn rhoi ymateb manwl ar beryglon stereoteipio a labelu plant, ac yn myfyrio ar sut maent wedi mynd i'r afael â materion o'r fath yn eu gweithle.

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd trwy gydol eu rhaglen ac mae safon eu gwaith ysgrifenedig yn gadarn, ar y cyfan, yn unol â lefel eu rhaglen. Fodd bynnag, mae ychydig o ddysgwyr yn gwneud camgymeriadau sylfaenol yn eu gwaith ysgrifenedig yn barhaus. Mae llawer o ddysgwyr yn gwella'u medrau rhifedd o'u mannau cychwyn unigol fel y nodwyd gan eu hasesiadau diagnostig cychwynnol, ac yn yr achosion gorau, yn ymgymryd â chymwysterau rhifedd lefel uwch i gefnogi dilyniant i brentisiaethau lefel uwch.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos medrau digidol cadarn, yn enwedig wrth ddefnyddio e-bortffolios i olrhain eu cynnydd a chael adborth. Mae llawer ohonynt yn defnyddio offer digidol yn hyderus i gefnogi eu dysgu, gan lanlwytho a rheoli eu gwaith yn annibynnol. Mae llawer o ddysgwyr hefyd yn cymhwyso medrau digidol yn dda yn y gweithle, gan ddefnyddio meddalwedd arbenigol i gwblhau asesiadau a thasgau yn gysylltiedig â gwaith. Mewn sesiynau ar-lein, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi ymgysylltu'n llawn, gan wneud defnydd effeithiol o offer digidol a swyddogaethau sgwrsio i gyfrannu'n ystyrlon at drafodaethau.

Mae llawer o ddysgwyr ag angen dysgu ychwanegol a nodwyd yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol, wedi'i gefnogi gan yr addasiadau teilwredig a gânt gan eu haseswyr, eu tiwtoriaid a thimau cymorth dynodedig.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae datblygiad medrau Cymraeg dysgwyr wedi'i gyfyngu i dermau ac ymadroddion achlysurol, er bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn cwblhau modiwl Cymraeg sylfaenol ar-lein ar ddechrau eu rhaglen. Mae ychydig o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn dewis dilyn elfennau o'u prentisiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, er bod

llawer ohonynt yn dewis peidio â dilyn yr opsiwn hwn, ac felly, nid ydynt yn datblygu eu medrau Cymraeg trwy eu rhaglen.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu medrau ymarferol cadarn ac yn gwerthfawrogi'r gallu i integreiddio eu dysgu yn eu tasgau gweithle. Er enghraifft, mae dysgwr gofal plant yn dangos ei wybodaeth am ddiogelu yn ymarferol trwy sicrhau bod plant yn aros mewn ardaloedd diogel hyd nes byddant yn cael eu casglu gan riant.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cyflwyno'u hunain yn broffesiynol mewn lleoliadau hyfforddiant a gweithle. Maent yn cydnabod gwerth mynychu sesiynau hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith i feithrin eu gwybodaeth a'u medrau gweithle. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cydweithio'n dda â'u tiwtoriaid, eu haseswyr, a'u cyfoedion mewn sesiynau grŵp, gan ofyn cwestiynau, gwirio dealltwriaeth, a mireinio ymatebion. Er enghraifft, mae dysgwyr chwaraeon yn herio ac yn mireinio syniadau ei gilydd wrth drafod agweddau sy'n amgylcheddol arwyddocaol yn eu hardal leol, gan ddangos lefelau uchel o ymgysylltu a meddwl beirniadol.

Ar draws y tair blynedd o ddata a gyhoeddwyd yn genedlaethol ers pandemig COVID-19, mae prentisiaethau sylfaen wedi gwella'n raddol bob blwyddyn, er bod perfformiad wedi bod islaw cyfartaleddau sector am y ddwy flynedd ddiwethaf. Ar draws yr un cyfnod o dair blynedd, mae prentisiaethau hefyd wedi gwella a pherfformio fwy neu lai yn unol â chyfartaleddau sector tra bod deilliannau lefel prentisiaethau uwch wedi aros yn gyson ac wedi perfformio uwchlaw cyfartaledd y sector bob blwyddyn.

Mae dysgwyr yn perfformio'n dda ar bob lefel mewn hamdden, teithio a thwristiaeth, gwallt a harddwch ac addysg a hyfforddiant, manwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid ar lefelau uwch, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar lefel prentisiaeth ac adeiladu, a'r amgylchedd adeiledig ar lefel sylfaen.

Nid yw dysgwyr yn perfformio cystal mewn adeiladu a'r amgylchedd adeiledig ar lefel prentisiaeth ac iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal a manwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid ar lefel prentisiaethau sylfaen.

Ar draws y ddarpariaeth, mae tua hanner y dysgwyr yn cwblhau eu fframweithiau yn hwyrach na'r disgwyl. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn rhagori'n sylweddol ar yr hyd disgwyliedig ar gyfer eu fframwaith.

**Lles, cymorth ac arweiniad**

Mae'r darparwr a'i bartneriaid cyflwyno yn darparu cyngor ac arweiniad cychwynnol cynhwysfawr ac effeithiol i ddysgwyr cyn, ac yn ystod, prosesau cofrestru ac ymsefydlu strwythuredig. Mae'r prosesau hyn yn helpu dysgwyr i ddeall pam maent yn ymgymryd â'r elfennau amrywiol o'u prentisiaeth, a sut gall y rhain gyfrannu at eu datblygiad personol

a'u dilyniant gyrfa. Mae ychydig iawn o ddysgwyr yn teimlo nad oeddent yn barod ar gyfer maint y gwaith, neu'r terfynau amser sy'n gysylltiedig â'u rhaglen hyfforddi.

Pan fydd dysgwyr yn dilyn rhaglen, mae aseswyr yn olrhain a monitro cynnydd a lles dysgwyr yn effeithiol trwy gyfarfodydd adolygu rheolaidd, sy'n cael eu cynnal naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein. Pan fydd dysgwyr yn cael anawsterau yn cynnal cynnydd yn eu dysgu, mae llawer o aseswyr yn darparu sesiynau ychwanegol, fel sy'n ofynnol. Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'n arbennig yr hyblygrwydd a'r gefnogaeth a ddarperir gan y dull hwn i'w helpu i oresgyn rhwystrau yn eu dysgu a'u datblygiad.

Mae'r darparwr wedi ymrwymo i sicrhau bod pob un o'r rhaglenni hyfforddiant ar draws ei rwydwaith partneriaid yn hygyrch a chynhwysol. Mae cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (ADY) arbenigol canolog yn darparu cymorth a chyfeiriad cryf i gydweithwyr ar draws partneriaid cyflwyno. Mae'r cydlynydd ADY hefyd yn darparu adnoddau a chyfleoedd hyfforddi gwerthfawr i diwtoriaid ac aseswyr i'w helpu i gefnogi unrhyw ddysgwyr ag ADY.

Mae llawer o diwtoriaid ac aseswyr yn darparu cymorth teilwredig effeithiol ar gyfer dysgwyr ag ADY. Er enghraifft, mewn sesiynau cymhwyso rhif Lefel 2, mae dysgwr yn elwa ar gael amser ychwanegol ac ysgrifennydd ar gyfer profion ac asesiadau ar ôl cael ei gyfeirio at banel ADY canolog y darparwr am gymorth â dyslecsia. Mae dysgwr sy'n dilyn prentisiaeth uwch mewn gofal plant yn cael cymorth teilwredig i ddiwallu ei anghenion unigol trwy feddalwedd wedi'i lanlwytho ar ei gyfrifiadur sy'n galluogi i ddogfennau gael eu darllen ar goedd, ac yn cymhwyso troshaenau awtomatig ar ei waith.

Mae mwyafrif o aseswyr yn cefnogi dysgwyr yn dda trwy addasu cyflwyno ac asesiadau i ystyried anghenion a ffafriaethau dysgwyr, lle bo'n briodol. Er enghraifft, mae asesydd rheoli prosiectau yn teilwra'i strategaeth asesu i fodloni ffafriaeth dysgwr am ddefnyddio trafodaeth broffesiynol wedi'i recordio yn hytrach nag asesiad ysgrifenedig. O ganlyniad, mae'r dysgwr yn mynegi ei syniadau'n fwy rhydd.

Mae llawer o gyflogwyr yn darparu amser i ddysgwyr fynychu sesiynau dysgu un i un a grŵp wedi'u hamserlennu yn ystod eu horiau gweithio. Fodd bynnag, nid yw ychydig o gyflogwyr yn darparu'r amser angenrheidiol i ddysgwyr fynychu gweithgareddau dysgu hanfodol i ffwrdd o'r gwaith. O ganlyniad, mae'n rhaid i'r dysgwyr hyn fynychu sesiynau adolygu gorfodol naill ai ar ddiwrnodau nad ydynt yn rhai gwaith neu'r tu hwnt i'w diwrnod gwaith arferol. Mae hyn yn effeithio'n negyddol ar gydbwysedd rhwng gwaith a bywyd dysgwyr a chynnydd mewn dysgu.

Mae gan y darparwr ffocws cryf ar wrando ar ddysgwyr ac yn hynod effeithiol o ran casglu adborth trwy arolygon a grwpiau ffocws dysgwyr. Defnyddir adborth dysgwyr yn effeithiol i

yrru gwelliant, fel adolygu a mireinio'r strwythur a hyd gweithdai dysgu i wella ymgysylltiad dysgwyr.

Mae'r darparwr yn cydnabod graddfa ac arwyddocâd cynyddol materion iechyd meddwl a lles a brofir gan ddysgwyr, yn enwedig mewn sectorau fel lleoliadau gofal sydd dan bwysau arbennig. I ymateb i'r materion hyn, mae'r darparwr wedi ehangu ei rwydwaith o gwnselwyr arbenigol, wedi cryfhau ei gysylltiadau ag asiantaethau allanol, ac yn rhoi mynediad i ddysgwyr at blatfformau cymorth defnyddiol ar-lein.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymwybodol o'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael yn ystod eu prentisiaeth. Er enghraifft, mae'r darparwr yn cyflwyno cymorth ymatebol, fel talebau bwyd neu gynhyrchion tlodi mislif ar gyfer y rhai sydd fwyaf mewn angen.

Mae gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau diogelu cynhwysfawr ar waith i amddiffyn pob un o'r dysgwyr, gan gynnwys y rhai sy'n dilyn prentisiaethau gyda phartneriaid. Mae gan y darparwr weithdrefnau priodol ar gyfer gwirio addasrwydd ei staff ei hun ac ar draws ei bartneriaid sydd mewn cysylltiad â dysgwyr.

Mae'r darparwr yn cynnal diwydrwydd dyladwy trylwyr ar bolisïau a gweithdrefnau diogelu partneriaid i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'i rai ei hun. Mae'r darparwr hefyd yn ymgysylltu ag arbenigwyr diogelu allanol i graffu ar brosesau diogelu, a'u herio, i'w helpu i ystyried pa mor gynhwysfawr ac effeithiol ydynt o ran amddiffyn pob dysgwr.

Mae'r darparwr yn defnyddio platfform ar-lein i gofnodi a monitro atgyfeiriadau diogelu. Mae'r darparwr yn adolygu pob un o'r atgyfeiriadau diogelu yn systematig, yn fewnol ac ar draws ei bartneriaid, i nodi tueddiadau a llywio gwelliannau. Mae pob un o'r staff ar draws y rhwydwaith o bartneriaid yn cymryd rhan mewn hyfforddiant diogelu rheolaidd a gorfodol. Yn ychwanegol, mae staff â chyfrifoldebau diogelu wedi ymgymryd â hyfforddiant gorfodol priodol ar lefel uwch.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd rhag aflonyddu tra byddant yn dilyn eu rhaglen prentisiaeth. Maent yn gwybod sut i adrodd am bryderon ynghylch diogelu ac yn cael hyfforddiant diogelu fel rhan o'u cyfnod ymsefydlu, gan gynnwys am radicaleiddio ac eithafiaeth.

At ei gilydd, mae trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

**Addysgu, hyfforddi, asesu a phrofiadau dysgu**

Mae'r darparwr yn cynnig ystod eang ac ymatebol o ddarpariaeth ar draws tua 50 o feysydd pwnc, gan sicrhau ei bod yn cyd-fynd yn gryf ag anghenion cyflogwyr. Mae'r ddarpariaeth wedi'i dylunio i gyd-fynd â gofynion y gweithlu a blaenoriaethau Llywodraeth

Cymru. Mae rhaglenni’n cefnogi anghenion a datblygiad medrau dysgwyr yn uniongyrchol, a phan fydd pryderon yn codi, fel gofynion asesu iechyd a gofal cymdeithasol, mae’r prif ddarparwr yn hwyluso ymgysylltiad â chyrff dyfarnu i ddarparu cyfleoedd i drafod newid, a dylanwadu arno.

Mae’r rhan fwyaf o aseswyr a thiwtoriaid yn cyflwyno sesiynau difyr sydd wedi’u strwythuro’n addas, gan roi esboniadau clir, gweithgareddau rhyngweithiol, a deilliannau dysgu diffiniedig. Maent yn defnyddio ystod o weithgareddau ac adnoddau difyr i ymestyn profiadau dysgwyr fel dadansoddi fideos, tasgau rhyngweithiol, a chymwysiadau gweithle i atgyfnerthu dealltwriaeth. Er enghraifft, mae asesydd hyfforddi campfa yn annog dysgwyr i werthuso "sesiwn gynefino berffaith" wedi’i recordio, gan sbarduno trafodaeth ar arfer orau. Mae asesydd chwaraeon yn defnyddio gweithgaredd ‘post-it’ digidol yn effeithiol mewn sesiwn wyneb yn wyneb i annog trafodaeth grŵp am yr amgylchedd lleol.

Mae llawer o aseswyr a thiwtoriaid yn defnyddio’u profiad a’u gwybodaeth broffesiynol i ymestyn ymgysylltu a chyfoethogi’r profiad dysgu. Er enghraifft, mae asesydd iechyd a gofal cymdeithasol yn rhannu ei brofiad o gefnogi cleient â dementia sydd wedi dychwelyd at siarad Cymraeg yn unig, yn cynghori dysgwyr ar ddefnyddio geiriau Cymraeg, arwyddion dwyieithog, ac offer cyfieithu digidol i gynorthwyo cyfathrebu.

Mae bron pob un o’r aseswyr a’r tiwtoriaid yn atgyfnerthu safonau gweithle trwy fodelu ymddygiadau a disgwyliadau proffesiynol. Mae llawer o aseswyr yn sicrhau bod asesiadau’n adlewyrchu gofynion y gweithle yn agos, gan gynorthwyo dysgwyr i ystyried cysyniadau diogelu, eithafiaeth, radicaleiddio a rheoli risg yn hyderus. Mae asesydd chwaraeon yn sbarduno’u dysgwyr i nodi risgiau gweithle, gan gynnwys tywydd a chymarebau plentyn i staff, gan ddangos dealltwriaeth drylwyr o ystyriaethau asesu risg.

Mae llawer o aseswyr a thiwtoriaid yn gosod disgwyliadau uchel, gan ddefnyddio cwestiynau treiddgar i ddatblygu meddwl dyfnach, datrys problemau a hunanfyfyrio. Mae asesydd yn herio dysgwyr i nodi diffygion mewn cylchedau trydanol, gan ymestyn eu gwybodaeth ddadansoddol a thechnegol, tra bod asesydd rheoli yn defnyddio holi targedig i ddyfnhau dealltwriaeth dysgwr o gyfrifoldebau diogelu a gweithle mewn coleg arbenigol annibynnol. Mewn trin gwallt, mae cwestiynau treiddgar asesydd yn arwain dysgwyr trwy ddatrys problemau, gan eu galluogi i awgrymu’r camau sydd eu hangen i gyflawni’r canlyniad lliw dymunol.

Mae llawer o aseswyr a thiwtoriaid yn gosod targedau tymor byr a thymor canolig strwythuredig y maent yn eu hadolygu’n rheolaidd, mewn cydweithrediad â dysgwyr. Maent yn gosod targedau sy’n gysylltiedig â gweithgareddau gweithle, tasgau asesu, a datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Mae aseswyr yn annog dysgwyr i fyfyrio a rhoi sylwadau ar dargedau, ac maent yn gwneud hyn yn dda, ar lafar a thrwy’r broses adolygu ffurfiol, fel ei gilydd.

Mae llawer o aseswyr yn darparu adborth manwl ac adeiladol, gan sicrhau bod dysgwyr yn deall disgwyliadau'r dasg a'r camau nesaf, ac yn yr achosion gorau, mae hyn yn cynnwys adborth sy'n amlygu gramadeg a sillafu, gan sicrhau bod gwaith yn bodloni safonau proffesiynol. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, ni chaiff adborth llafar ei gefnogi gyda recordiadau neu anodiadau ysgrifenedig, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i ddysgwyr adolygu eu hadborth i fireinio'u gwaith.

Pan fo'n briodol, mae aseswyr yn teilwra tasgau ac yn addasu dulliau asesu i ddiwallu anghenion dysgu unigol. Mae asesydd iechyd a gofal cymdeithasol yn cefnogi dysgwr â newid o gyflwyniadau wedi'u hysgrifennu â llaw i gyflwyniadau digidol, tra bod asesydd gofal plant yn addasu asesiadau ar gyfer dysgwr ag ADY, gan ddefnyddio gwerthusiadau llafar ac ymarferol yn hytrach nag aseiniadau ysgrifenedig.

Mae bron pob un o'r aseswyr a'r tiwtoriaid yn meithrin perthnasoedd cryf a phroffesiynol â dysgwyr, gan ddefnyddio canmoliaeth ac anogaeth yn effeithiol i gynnal cymhelliant ac ymgysylltiad. Mae llawer o aseswyr hefyd yn annog hunanfyfyrio, gan sbarduno dysgwyr i werthuso'u cynnydd, gosod eu targedau eu hunain, a thrafod terfynau amser cyflawnadwy.

Mae'r darparwr wedi ymrwymo i ddatblygu darpariaeth Gymraeg, gyda hyrwyddwr Cymraeg dynodedig sy'n hyrwyddo arfer orau a datblygu adnoddau. Mae ychydig o aseswyr yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol mewn cyfathrebu ac adborth, a'r aseswyr gorau yn ei hymgorffori'n ystyrlon mewn dysgu. Mae asesydd gofal plant yn gosod targed i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac mae'r dysgwr bellach yn ennyn diddordeb plant â chaneuon a chyfarwyddiadau Cymraeg. Mae asesydd gwaith ieuenctid yn newid yn effeithiol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg mewn adborth llafar ac ysgrifenedig.

Mae modelau dysgu hyblyg, gan gynnwys cyflwyno wyneb yn wyneb, hybrid, ac ar-lein, yn galluogi dysgwyr i sicrhau cydbwysedd yn effeithiol rhwng gwaith ac astudio. Mae platfformau dysgu digidol yn gwella hygyrchedd ac yn olrhain cynnydd dysgwyr. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, mae dibyniaeth ar systemau olrhain ar bapur yn cyfyngu ar olrhain a monitro cynnydd amser real.

Mae'r darparwr yn ymestyn profiadau dysgwyr trwy achrediad cyrsiau bach a chymryd rhan mewn cystadlaethau medrau. Mewn llawer o achosion, mae cydweithio cryf rhwng darparwr a phartneriaid diwydiant yn sicrhau bod darpariaeth yn esblygu wrth ymateb i anghenion cyflogwyr, a bod profiadau dysgu yn ystyrlon a pherthnasol i'r gweithle. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, mae ymgysylltu â chyflogwyr mewn addysgu a dysgu yn parhau i fod yn anghyson, ac yn yr achos hwn, maent yn cymeradwyo adolygiadau yn unig, yn hytrach na chefnogi cynnydd dysgwyr.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae Associated Community Training (ACT) Ltd yn ddarparwr hyfforddiant sefydledig sy’n gweithio’n effeithiol mewn cydweithrediad â 12 partner hirsefydledig i gyflawni ei gontract prentisiaethau. Mae’r darparwr yn is-gorff a berchnogir yn gyfan gwbl gan Goleg Caerdydd a’r Fro, ac yn sefydliad nid-er-elw. Mae gan uwch dîm rheoli’r darparwr brofiad helaeth yn y sector dysgu yn y gwaith.

Mae’r darparwr a’i bartneriaid yn gweithio’n dda tuag at ddiwylliant o werthoedd ar y cyd, yn seiliedig ar dryloywder a didwylledd sy’n helpu sefydlu perthnasoedd gwaith effeithiol. Maent wedi datblygu gweledigaeth glir ac amcanion strategol i ddiwallu anghenion cyflogwyr a dysgwyr. Mae’r weledigaeth yn cynnwys amcan clir i ‘wella bywydau trwy ddysgu’. Mae’r weledigaeth hon yn cyd-fynd yn agos â gwerthoedd craidd y cwmni sydd wedi’u rhannu’n bedwar maes allweddol sy’n nodi ansawdd, effeithlonrwydd, twf a hapusrwydd ac ymgysylltiad staff fel eu blaenoriaethau. Mae gan aelodau o’r uwch dîm arweinyddiaeth rolau a chyfrifoldebau wedi’u diffinio’n glir ac maent yn cynnal llinellau atebolrwydd a chyfathrebu clir ar draws y rhwydwaith.

Ceir cyfathrebu cryf ar draws partneriaid, ac mae’r darparwr yn rhannu ystod eang o wybodaeth allweddol, diweddariadau a chyfarwyddebau contract gan Lywodraeth Cymru yn rheolaidd. Mae gan uwch arweinwyr ac arweinwyr canol rolau a chyfrifoldebau wedi’u diffinio’n glir wrth arwain cyfarfodydd. Mae’r cyfarfodydd rheolaidd hyn yn cynnwys cynllunio strategol, ansawdd a pherfformiad. Mae rheolwyr ansawdd yn gweithio’n dda gyda phartneriaid dynodedig i adolygu eu perfformiad a rhoi cymorth.

Mae’r darparwr yn defnyddio prosesau sicrhau ansawdd cynhwysfawr ac mae ganddo ddiwylliant o welliant parhaus. Mae proses hunanwerthuso flynyddol y darparwr yn cynnwys pob partner ar draws y rhwydwaith ac yn cynnwys dangosyddion perfformiad a gwybodaeth allweddol am berfformiad ar gyfer y rhan fwyaf o’u meysydd gwaith. Mae hyn yn cynnwys proses fanwl i raddio risg i lywio’r cynllun datblygu ansawdd. Mae cynllun gwella ansawdd y darparwr yn gynhwysfawr ac yn nodi targedau defnyddiol ar gyfer gwella mewn meysydd allweddol o waith y darparwr. Fodd bynnag, nid yw prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant y darparwr yn canolbwyntio’n ddigon craff ar ddeilliannau dysgwyr mewn meysydd dysgu lle mae deilliannau’n is na chymaryddion cenedlaethol neu nifer fawr y dysgwyr sy’n cymryd yn hirach i gwblhau eu prentisiaeth na’r disgwyl.

Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn ymgysylltu’n effeithiol â chyrff lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau bod darpariaeth prentisiaethau yn adlewyrchu blaenoriaethau yn briodol ar y lefelau hyn. Cânt eu cynrychioli yn y bartneriaeth sgiliau rhanbarthol ac maent yn gweithio’n dda gyda grwpiau cynrychioliadol cyflogwyr i ddatblygu prentisiaethau newydd i ddiwallu angen.

Mae’r darparwr wedi bod yn effeithiol o ran gweithio gyda grwpiau cyflogwyr i gefnogi anghenion hyfforddiant trwy ddatblygu rhaglenni prentisiaethau newydd. Er enghraifft, maent wedi datblygu prentisiaethau newydd i ddiwallu anghenion y sector ariannol a’u hymrwymiad i gefnogi rhaglenni yn y diwydiant amgylcheddol.

Mae’r darparwr wedi sefydlu perthnasoedd gwerthfawr gydag ystod eang o sefydliadau allanol i helpu datblygu cyfleoedd prentisiaethau. Mae’r rhain yn cynnwys perthnasoedd buddiol gyda grwpiau cynrychioliadol sectorau, cyrff dyfarnu a fforymau cyflogwyr. Mae’r darparwr a’i bartneriaid yn gweithio’n effeithiol gyda llawer o gyflogwyr ledled Cymru. Mae’r cyflogwyr hyn yn cynnwys cwmnïau cenedlaethol mawr, mentrau bach i ganolig a busnesau micro, ac yn cwmpasu ystod eang o feysydd dysgu. Mae’r rhan fwyaf o gyflogwyr yn cefnogi eu prentisiaid ac yn ymgysylltu’n dda â’r rhaglen ddysgu. Fodd bynnag, mae presenoldeb cyflogwyr yn ystod adolygiadau cynnydd dysgwyr yn aml yn gyfyngedig, ac mewn ychydig o achosion, nid yw dysgwyr bob amser yn cael eu cefnogi’n llawn nac yn cael amser i fynychu sesiynau hyfforddiant i ffwrdd o’r gwaith yn ystod amser gweithio.

Ar draws y darparwr a’i bartneriaid, mae staff yn elwa ar gyfle i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau dysgu proffesiynol. Mae’r darparwr yn nodi’n glir fod hyfforddiant yn orfodol, fel diogelu, gan gynnwys hyfforddiant ar eithafiaeth a radicaleiddio, a datblygiad medrau llythrennedd a rhifedd. Mae’n ofynnol i bartneriaid ymgymryd â hyfforddiant tebyg gyda’u staff a chyflwyno tystiolaeth i’r prif ddarparwr i gadarnhau cydymffurfiad. Mae’r prif ddarparwr yn galluogi cydweithio rhwng ei bartneriaid trwy hwyluso ystod o weithgareddau is-grwpiau i drafod agweddau allweddol ar y ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys grwpiau sydd wedi canolbwyntio ar fedrau hanfodol a rhaglenni iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyfforddiant targedig ynghylch technegau holi wedi bod yn hynod effeithiol, ac mae’r rhan fwyaf o aseswyr a thiwtoriaid yn dangos lefelau medrau cryf.

Mae aseswyr a thiwtoriaid ar draws y darparwr a’i bartner yn manteisio ar ystod eang o weithgareddau hyfforddi ychwanegol i gefnogi a datblygu eu gwybodaeth a rhannu arfer dda ar draws y rhwydwaith. O ganlyniad i’r ymrwymiad clir hwn i ddysgu proffesiynol, mae llawer o staff sy’n awyddus i ddatblygu yn eu rôl ac yn cefnogi cadw staff.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr a'r holiadur i gyflogwyr, ac yn ystyried barn athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â'r pennaeth / prif weithredwr, llywodraethwyr (lle bo'n briodol), uwch reolwyr a rheolwyr canol ac athrawon unigol, hyfforddwyr ac aseswyr i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, gwrando arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau, gan gynnwys sesiynau i ffwrdd o'r gwaith, sesiynau theori a sesiynau hyfforddi ymarferol
- yn ymweld ag ystod eang o ddysgwyr yn eu gweithleoedd i arsylwi eu medrau gweithle, arsylwi asesiadau, adolygu eu gwaith theori a chyfarfod â'u cyflogwyr
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth eang o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am asesu, olrhain a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd rheolwyr a staff, cyfarfodydd ag is-gontractwyr a phartneriaid allweddol a chyfarfodydd â chyflogwyr, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, bu Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y bartneriaeth ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 21/05/2025